



**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o rhithwir gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 25
Chwefror 2021 am 3.00 pm.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn
bresennol:-:-**

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd G Hughes
Y Cyngorydd J Williams Y Cyngorydd W Owen
Y Cyngorydd R Yeo Y Cyngorydd D Williams
Y Cyngorydd S Powderhill

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan Y Cyngorydd M Adams
Y Cyngorydd P Howe Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd G Thomas

102 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn
â'r agenda.

103 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.
Grehan.

**104 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI
DATBLYGU**

PENDERFYNWDYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar
faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau
y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i
Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu
mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i
hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

105 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

106 Cofnodion

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar XXXXX yn rhai cywir.

107 CYHOEDDIAD POLISI CYMRU A CHYNLLUNIO YN Y DYFODOL 11

Rhoddodd y Pennaeth Materion Cynllunio wybod i'r Aelodau am gyhoeddiad y Fframwaith Datblygu Diweddar a'r cynllun arbennig dros 20 mlynedd, sef 'Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040' (CD2040). Dywedodd wrth yr Aelodau y byddai angen i bwyllgorau Cynllunio ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau. Yn ogystal â chyhoeddi cynllun CD2040 cyhoeddwyd rhifyn diwygiedig (Rhifyn 11) o Bolisi Cynllunio Cymru (PPW) yn ddiweddar hefyd. Gan fod y cyhoeddiadau yma mor agos at ddyddiad cyfarfod y pwyllgor, clywodd yr Aelodau nad oedd yr adroddiadau ar yr agenda hon yn gallu cyfeirio at y ddogfen. Dywedodd y Pennaeth Materion Cynllunio wrth yr Aelodau y bydden nhw'n cael gwybod a oes goblygiadau neu faterion polisi y dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol ohonynt cyn ystyried y ceisiadau.

108 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

109 CAIS RHIF: 20/0963

Cais am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl (gwedd, tirlunio, cynllun a graddfa) ar gyfer datblygiad preswyl gan gynnwys gwaith, ffyrdd a seilwaith cysylltiedig. HEN SAFLE CLARIANT, FFORDD LLANTRISANT, PENTRE'R EGLWYS, CF38 2SN.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Pete Sulley (Asiant)
- Ms Joanne Baldock (Gwrthwynebydd)

Arferodd Mr Sulley ei hawl i ymateb i'r gwrthwynebydd.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan nodi, er ei fod e'n gefnogol, fod ganddo bryderon ynghylch y datblygiad arfaethedig. Amlinellodd y pryderon yma i'r Aelodau.

Darllenodd y Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys datganiadau ysgrifenedig gan yr unigolion canlynol:

- Mr Roy Lloyd (Gwrthwynebydd)
- Cyfarwyddwr Creigau Tyres Recycling (Gwrthwynebydd)
- Ms Claire Hyam (Gwrthwynebydd)

Rhoddodd y Pennaeth Materion Cynllunio ddiweddariad ar oblygiadau CD20140 a PPW 11, a chyflwynodd y cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** gohirio penderfynu ar y cais i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn galluogi negodi gyda'r ymgeisydd mewn perthynas â'r rhybudd adran.106 presennol, mewn perthynas â darparu tai fforddiadwy ychwanegol ar y datblygiad, gan fod yr Aelodau o'r farn bod ystyriaethau ac amgylchiadau wedi newid ers i'r cais amlinellol gael ei gymeradwyo, a hefyd er mwyn trafod cynllun arfaethedig y tai mewn perthynas â'r unedau masnachol cyfagos.

(Nodwch: Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hughes rhag pleidleisio ar y cais yma gan nad oedd yn bresennol ar gyfer yr holl ddadl.)

110 CAIS RHIF: 20/1171

Adeiladu 4 o dai teras gyda maes parcio cwrtil cysylltiedig oddi ar y fynedfa gefn. TIR GER 186 HEOL Y DWYRAIN, TYLORSTOWN, CF43 3BY (HEN SAFLE CAPEL Y BEDYDDWYR)

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Stephen Waldron (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelodau Lleol, y Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R Bevan a M Adams, nad yw'n aelodau o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi eu pryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor a rhoddodd ddiweddariad ar oblygiadau CD20140 a PPW 11, ar ôl trafod **PENDERFYNWYD** gohirio'r Cais fel bod modd trefnu i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal ymweliad safle i ystyried diogelwch y priffyrdd a mynediad i'r lleoliad parcio arfaethedig ar y safle.

111 CAIS RHIF: 19/0655

Gwaith peirianeg, ail-lenwi tir, ffurfio mynedfa newydd (rhan ôl-weithredol) (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a dogfennau ategol ar 9 Medi 2020 a 18 Rhagfyr 2020). FFERM EIN GLASWELLT, HEOL BYTHYNNOD RACKETT, CASTELLAU, BEDDAU, PONT-Y-CLUN, CF72 8LQ

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms Samantha Lewis (Ymgeisydd). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor a diweddarau'r Aelodau o ran goblygiadau CD2040 a PPW 11. Ar ôl trafod y cais,

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ddileu amod 1 gan fod y cais wedi dechrau mynd rhagddo, felly bydd angen ail-rifo amodau 2-4 yn 1-3.

(**Nodwch:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Powderhill rhag pleidleisio ar y cais yma gan nad oedd yn bresennol ar gyfer yr holl ddadl.)

(**Nodwch:** Gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Williams y cyfarfod yn ystod cyflwyniad y cais ac nid oedd yn bresennol yn ystod y bleidlais.)

112 CAIS RHIF: 19/0421

Codi 6 anedd ar wahân (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig 22/07/19). TIR TU ÔI I DREFELIN, TRECYNON, ABERDŶR.

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant yn y cais (Cofnod Rhif 120), arferodd yr Aelod Lleol (nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor), Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries, ei hawl i annerch y Pwyllgor o dan adran 14(2) o'r Cod Ymddygiad. Amlinellodd ei bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a ddilynodd).

Darllenodd y Pennaeth Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' a gyflwynwyd gan Ms Julie Howe mewn gwrthwynebiad i'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio ei gais i'w Pwyllgor a diweddarau'r Aelodau o ran goblygiadau CD2040 a PPW 11, ac yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod gan yr Aelodau bryderon ynglŷn â diogelwch ar y briffordd ger y fynedfa. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

113 CAIS RHIF: 20/0984

Adeilad newydd arfaethedig ar gyfer boeler biomas 500kw, man storio sglodion coed ynghyd ag estyniad i'r swyddfa a gwaith cysylltiedig. SIXTEENTH AVENUE, YSTAD DDIWYDIANNOL HIRWAUN, HIRWAUN.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Thomas, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Darllenodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol gynnwys datganiad ysgrifenedig gan Mrs Claire Rees yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor a diweddarau'r Aelodau o ran goblygiadau CD2040 a PPW 11. Yn

dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

114 CAIS RHIF: 20/1179

Estyniad unllawr cefn, adeiladu dreif a gwneud lefel y to 700mm yn uwch (ôl-weithredol) (derbyniwyd cynlluniau ychwanegol ar 20/11/2020) (derbyniwyd cyfrifiadau wal gynnal a manylion ar 03/01/2021). FAIRFIELD, LÔN JOHN, HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9TQ

Darllenodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol gynnwys llythyr 'hwyr' a gyflwynwyd gan Mr a Mrs Enoch yn amlinellu pryderon ynghylch materion priffyrdd.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor a diweddarau'r Aelodau o ran goblygiadau CD2040 a PPW 11. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ddiwygio'r amodau yma:

- Dileu Amod 1 gan fod y datblygiad eisoes wedi cychwyn ac nid oedd yn angenrheidiol;
- Ail-rifo'r amodau sy'n weddill (2-6) fel 1-5;
- Amodau 2, 4 a 5 i gynnwys y gofyniad i'r ymgeisydd gyflwyno manylion i'w cymeradwyo cyn pen 2 fis o ddyddiad y caniatâd a chwblhau gwaith yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt cyn pen 6 mis o ddyddiad y caniatâd.

115 CAIS RHIF: 20/1245

Bloc estyniad ar wahân (i gynnwys pedair ystafell ddosbarth, neuadd ysgol a lleoedd cymdeithasol allanol cysylltiedig). YSGOL GYNRADD FFYNNON TAF, HEOL CAERDYDD, FFYNNON TAF, CAERDYDD, CF15 7PR

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais uchod i'r Pwyllgor a diweddarau'r Aelodau o ran goblygiadau CD2040 a PPW 11. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

116 CAIS RHIF: 20/1253

Ailfodelu'r pwll nofio a'r ystafelloedd newid presennol yn fewnol i greu cyfleuster gofal plant newydd yn cynnwys ystafell chwarae, swyddfa, toiledau plant a staff, cegin ac ystafell gotiau. YSGOL GYNRADD DOLAU, HEOL PEN-Y-BONT AR OGWR, LLANHARAN, PONT-Y-CLUN, CF72 9RP

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r y cais uchod i'r Pwyllgor a diweddarau'r Aelodau o ran goblygiadau CD2040 a PPW 11. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar atgyfeiriad ffafriol i Cadw.

117 CAIS RHIF: 20/1298

Ailfodelu'r pwll nofio a'r ystafelloedd newid presennol yn fewnol i greu cyfleuster gofal plant newydd. Bydd rampiau metel newydd wedi'u gorchuddio â phowdr yn cael eu gosod yn y mynedfeydd presennol i wella mynediad a bydd uchder siliau dwy ffenestr yn cael ei adfer i'w lefel wreiddiol. YSGOL GYNRADD DOLAU, HEOL PEN-Y-BONT AR OGWR, LLANHARAN, PONT-Y-CLUN, CF72 9RP

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r y cais uchod i'r Pwyllgor a diweddarau'r Aelodau o ran goblygiadau CD2040 a PPW 11. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

118 CAIS RHIF: 20/1403

Dymchwel tŷ gofalwyr, adeiladu cyfleusterau addysgu a chwaraeon. YSGOL GYFUN RHYDYWAUN, MANGOED, PENYWAUN, HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9ES

Darllenodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol gynnwys dau lythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn nad oedd yn amlinellu gwrthwynebiadau mawr i'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais uchod i'r Pwyllgor a diweddarau'r Aelodau o ran goblygiadau CD2040 a PPW 11. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad a'r amod ychwanegol canlynol:

- Cyn adeiladu'r adeilad a gymeradwyir drwy hyn, rhaid cyflwyno strategaeth oleuadau allanol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig. Gweithredir y cynllun ar y safle gan feddiannaeth fuddiol gyntaf yr adeilad, yn unol â'r manylion cymeradwy a chaiff ei gadw am byth.

Rheswm: Gwarchod a gwella cymeriad a rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

119 CAIS RHIF: 21/0005

Adeiladu estyniad traddodiadol unllawr tair ystafell ddosbarth, gan gynnwys toiledau, ystafell beiriannau, manau storio, cylchrediad a gwaith allanol cysylltiedig gan gynnwys Ardal Gemau Aml-ddefnydd newydd a phedwar lle parcio ychwanegol ar adeilad presennol yr ysgol. YSGOL GYNRADD CWMLAI, PENYGARREG ROAD, TONYREFAIL CF39 8AS

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor a rhoddodd ddiweddariad yngylch yr oblygiadau o ran CD2040 a PPW 11. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag

argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

120 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 25/01/2021 – 12/02/2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm

**Y Cyngorydd S Rees
Cadeirydd.**